Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jayne Bryant AS

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Trwy e-bost yn unig**

**Oddi wrth**: Martyn Jones DR YH, Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Ein cyf: 20240307BryantCymreag

Dydd Iau 07 Mawrth 2024

Annwyl Jane Bryant,

## Trais yn erbyn menywod a merched

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ein hadroddiad cynhwysfawr, a gyhoeddwyd heddiw, yn dadansoddi perfformiad Llywodraethau'r DU a Chymru o ran cynnal Confensiwn Istanbwl. Yn benodol, hoffem dynnu sylw at rai o'i argymhellion sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi cyhoeddi ein dadansoddiad o gonfensiwn Istanbwl ar ein gwefan.

### Confensiwn Istanbwl

Fel y gwyddoch, cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Goresgyn Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig ('Confensiwn Istanbwl') ym mis Gorffennaf 2022. Croesawyd y cam pwysig hwn gennym. O'r herwydd, mae Llywodraethau'r DU a Chymru bellach wedi'u rhwymo gan gyfraith ryngwladol i amddiffyn menywod a merched rhag trais. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau atal, erlyn y rhai sy'n gyfrifol, a diogelu goroeswyr.

Mae ein hadroddiad wedi'i gyflwyno i gefnogi gwerthusiad arbenigwyr Cyngor Ewrop ar drais yn erbyn menywod a merched ('GREVIO') o weithrediad y Confensiwn.

Fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws A, rydym wedi darparu ein dadansoddiad annibynnol ar gydymffurfiaeth â'r Confensiwn, ac argymhellion ar gyfer newid, i gefnogi asesiad GREVIO, gan gynnwys drwy gyfarfod â'r arbenigwyr ym mis Ionawr 2024. Mae'n bleser gennym rannu ein hadroddiad â chi heddiw, sy'n adlewyrchu'r rhaglen waith hon.

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad, rydym yn croesawu targedau uchelgeisiol y ddwy lywodraeth i wella diogelwch menywod a merched, a'u ffocws ar ysgogi gwelliannau. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i wireddu'r targedau hyn i fenywod a merched. Rydym yn amlinellu rhai o'n hargymhellion yma.

**Mesur cynnydd**

Er mwyn hwyluso gwelliannau i ddiogelwch menywod a merched, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dangosyddion newydd i fesur cynnydd wrth weithredu ei strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol bresennol yn ddi-oed. Gan na chyhoeddodd Llywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth gynhwysfawr am gynnydd yn erbyn ei dangosyddion ar gyfer 2019, rydym o'r farn ei bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru fabwysiadu mwy o ffocws ar gyflawni a thryloywder.

**Cefnogaeth i blant sy'n ddioddefwyr trais**

Mae ein hadroddiad yn ystyried profiad merched o drais ac yn mynegi ein

pryderon am y diffyg cymorth therapiwtig arbenigol sydd ar gael i blant sy'n ddioddefwyr trais. Rydym yn nodi argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) y dylai llywodraethau'r DU a Chymru gyflwyno gwarant y bydd plant sy'n ddioddefwyr cam-drin rhywiol yn cael cynnig cymorth therapiwtig arbenigol ac achrededig. Nid yw hyn wedi'i weithredu, er gwaethaf ymchwil sy'n dangos bod ymyriadau cynnar yn effeithiol o ran lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol ac atal problemau iechyd meddwl sylweddol yn ddiweddarach mewn bywyd.

**Rôl ysgolion**

Mae ein hadroddiad hefyd yn trafod rôl bwysig ysgolion a chwricwla addysgol o ran atal trais yn erbyn menywod a merched yng Nghymru. Mae'n disgrifio tystiolaeth o effaith rhywiaeth ac agweddau rhagfarnllyd mewn ysgolion.

Rydym yn croesawu cynllun gweithredu aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ond yn nodi nad oes amserlenni wedi'u neilltuo ar gyfer camau gweithredu.

Byddem yn hapus i gyfarfod i drafod y materion hyn ymhellach, ac yn eich gwahodd i ystyried ein hadroddiad, a'i argymhellion ar gyfer newid, yn ofalus.

Yr eiddoch yn gywir,

M Jones

Martyn Jones DR YH

Arndale House, The Arndale Centre
Manchester, M4 3AQ

**equalityhumanrights.com**

**Cadeirydd Dros Dro**

**Pwyllgor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru |**

Arndale House, The Arndale Centre
Manchester, M4 3AQ

**equalityhumanrights.com**